**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN FESTRI CAPEL SALEM LLANDDOGED, NOS LUN, 29ain Gorffennaf, 2024**

**1**

1. 1 **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

1.2**PRESENNOL**

Cyng. Hefin Martin(HM (Cadeirydd), Cyng. Alun Morris(AM), Cyng. Anwen Jones(AJ),
Cyng Nerys Dobson(ND), Cyng. John Owen(JO), Cyng. Eifion Williams(EW),
Delyth Algieri (clerc).
Cyng Nia Owen(Cynghorydd Sir)(NO),

1.3 **YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Arwel Ll Jones(ALJ), Cyng. Dylan Jones (DJ)
Cyng Aaron Wynne(Cynghorydd Sir)(AW)

2. **CADARNHAU'R COFNODION 24ain Mehefin, 2024**

Cynnigwyd y cofnodion yn gywir gan (ND) ac eilwyd gan ( HM).

3.**MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**

3.1 CYNNAL A CHADW

Gwaith trwsio y ffyrdd Ffordd Bryn Saith a Allt Salem Llanddoged wedi ei gwblhau gan cyngor Conwy.

3.2 AWDIT CYFRIFON Y CYNGOR - CYLCH TAIR BLYNEDD

Y clerc heb gael unrhyw ddiweddariad ar yr awdit llawn gan Awdit Cymru.

3.3 PROBLEMAU BAW CWN

Cafwyd diweddariad gan Cyng Nia Owen ynglŷn ar berson sydd yn crwydro ei chi sydd ddim ar dennyn o gwmpas caeau'r pentref a ddim yn glanhau baw y ci ar ei hol. Bydd Heddwas o Lanrwst yn galw i weld y person yma i gael gair gyda hi. Hefyd bydd Cyng. Nia Owen yn cysylltu gyda swyddogion o'r Adran Amgylcheddol Cyngor Conwy i gael cyngor ar y mater.

4. **CEISIADAU AR GYFER Y GRANT CRONFA FFYNIANT CYFFREDIN Y DU' CONWY**
**ARWYDD MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH, MAENAN**

Cadarnhawyd fod yr arwydd wedi cael ei osod. Diolchodd y Cadeirydd i Gyng. John Owen a Mr Elwyn Williams am osod yr arwydd. Bydd y clerc yn archebu'r bwrdd picnic o Wynnstay Llanrwst ar gyfer y maes parcio wythnos yma ac yn hawlio'r arian grant yn ôl o Gonwy ynghyd ar TAW.

5. **CAE CHWARAE MAENAN**

Cyngor Conwy wedi torri'r gwair unwaith eto yn y Cae Chwarae, Maenan.

**6.CYNLLUNIO**

- **Cyfeirnod:** 0/51805 Gerallt a Heledd Jones - Estyniad unllawr i ochr a chefn yr eiddo i ddarparu swyddfa gartref, ystafell gyfleustodau, toiled ac ystafell glyd, ynghyd ag ailadeiladu portsh mwy. Maes Yr Awel Ffordd Trwyn Swch Llanddoged Llanrwst LL26 0DZ

- **Cyfeirnod:** 0/51852 **-**Mr Mike Hayes -Estyniad deulawr i gefn yr eiddo ac estyniad unllawr i ochr yr eiddo Caer Faban Farm Ffordd Trwyn Swch Llanddoged.

Trafodwyd y ddwy gais gynllunio uchod a phasiwyd aelodau y Cyngor drwy godi eu dwylo i gadarnhau fod dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau.

7. **CYNNAL A CHADW**

7.1 Gwrych Troed y Rhiw, Ffordd Trwyn Swch, Llanddoged yn tyfu allan i'r ffordd.
7.2 Pryder am goed yn cael eu torri ar dir ym Mhenrhiw, Llanddoged.
(Angen cysylltu gyda Chonwy i weld pwy sydd yn berchen ar y tir yma).

8. **UNRHYW FATER ARALL**

8.1 FFORDD PEN Y GRAIG ARTHUR , LLANDDOGED

Derbyniodd y clerc e-bost gan Madeline Raven o Pen y Graig Arthur Llanddoged ynglŷn â Llwybr Troed Cyhoeddus yn Pencraig Arthur, Llanddoged.

Trafodwyd yr e-bost a phenderfynwyd nodi pryderon M. Raven ynglŷn â cherbydau a beiciau modur yn defnyddio'r Llwybr Troed Cyhoeddus o hyn ymlaen. Pasiwyd i anfon gwybodaeth yn ôl ati nad oes gan y Cyngor Cymuned unrhyw fanylion o ble mae cofnodion y gorffennol wedi cael eu storio. Awgrymwyd iddi gysylltu gyda'r Adran Archifdy Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am gymorth.

8.2 GWAITH CYNNAL A CHADW LLANDDOGED A MAENAN

Pasiwyd drwy aelodau godi eu dwylo i gadarnhau i dderbyn yr amcan bris o £100 gan Mr E L Williams, Ty'n Gwern Ucha, Llanddoged am y nwyddau a'r gwaith o osod yr arwydd ym maes parcio Cadair Ifan Goch, Maenan. Hefyd derbyniwyd yr amcanbris o £100 i dacluso a strimio y Maes parcio Gegin Wen Llanddoged. Cyfanswm o £200 - £100 Ward Maenan a £100 Ward Llanddoged.